Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
## Clinig Medshift
## Dyddiad y gweithgarwch: 13 Ionawr 2021

Dyddiad cyhoeddi: 10 Chwefror 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80082-838-4

(h) Hawlfraint y Goron 2020

# Cofnod o'r Canfyddiadau

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Glinig Medshift fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r clinig wedi'i leoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac mae'n darparu gwasanaethau rheoli pwysau i gleifion 16 oed a throsodd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a rheoliadau perthnasol eraill. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal yn gyfan gwbl oddi ar y safle ac maent yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol; yr amgylchedd, darparu gofal diogel ac effeithiol, atal a rheoli heintiau a staffio. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig ar 13 Ionawr 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei leoliad. [1] Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod pob claf (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a phrosesau i alluogi cleifion i gael apwyntiadau.
- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut mae'r clinig a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19?

[1] Ystyr rheolwr cofrestredig yw unigolyn sydd wedi'i benodi o dan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 fel rheolwr sefydliad.

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Gwnaethom edrych ar asesiadau risg diweddar a gofyn i'r lleoliad am y newidiadau a wnaed mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn cynnal diogelwch ac urddas cleifion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y modd y bu'n rhaid addasu'r clinig a'r ffordd y mae'n darparu gwasanaethau er mwyn ymateb i heriau COVID-19. Mae ymweliadau â'r clinig wedi'u cyfyngu i ddau ddiwrnod yr wythnos, sydd wedi golygu bod gwasanaethau wedi'u darparu o bell yn bennaf. Mae cleifion yn trefnu apwyntiadau ar-lein ac yn cwblhau'r ddogfennaeth angenrheidiol yn electronig gan ddefnyddio rhaglen trosglwyddo ffeiliau ddiogel. Mae'r rheolwr cofrestredig yn adolygu'r ddogfennaeth ac yn cynnal rhith-ymgynghoriad i drafod opsiynau posibl o ran triniaeth. Mewn achosion lle nad oes gan gleifion y cyfarpar addas i bwyso eu hunain a mesur cyfradd curiad y galon, bydd y rheolwr cofrestredig yn ymweld â'r claf yn bersonol ac yn cofnodi'r mesuriadau hyn. Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig yn gwisgo cyfarpar diogelu personol wrth gynnal ymweliadau cartref, a'i fod yn eu cynnal ar garreg y drws er mwyn dilyn y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol. Caiff meddyginiaeth a ragnodir naill ai ei hanfon yn ddiogel drwy wasanaeth dosbarthu cofnodedig neu ei rhoi i'r claf yn ystod ymweliad cartref.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym am y gweithdrefnau sydd wedi'u rhoi ar waith i sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol diogel a helpu i liniaru achosion o groesheintio pan fydd staff a chleifion yn ymweld â'r clinig. Dim ond un claf a ganiateir yn y clinig ar y tro ac mae'n rhaid i gleifion a staff wisgo masgiau wyneb bob amser. Mae sticeri a phosteri i atgoffa'r cleifion am y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol wedi'u gosod ar y llawr a'r waliau. Mae addasiadau wedi'u gwneud er mwyn sicrhau y gellir cymryd mesuriadau'n ddiogel, megis prynu clorian Bluetooth, sy'n galluogi'r rheolwr cofrestredig i gofnodi'r pwysau drwy ap gan gadw pellter cymdeithasol.

Gwelsom fod yr holl drefniadau newydd hyn wedi'u nodi yn y polisi Gweithdrefnau Parhad COVID-19 a pholisi Rheoli Heintiau diwygiedig.

Dywedwyd wrthym ei bod yn ofynnol i gleifion lenwi holiadur ar-lein sy'n cynnwys cwestiynau am symptomau COVID-19 er mwyn sicrhau ei bod yn ddiogel iddynt ymweld â'r clinig neu i'r rheolwr cofrestredig gynnal ymweliadau cartref. Caiff gwiriadau eu cwblhau hefyd cyn rhagnodi unrhyw feddyginiaeth i gleifion. Cawsom gopi o'r wybodaeth a roddir i gleifion ar ôl iddynt drefnu apwyntiad a gwelsom fod cyfarwyddiadau clir i gleifion am y gweithdrefnau COVID-19 sydd ar waith yn y clinig.

Gwnaethom drafod y trefniadau i gadarnhau manylion adnabod cleifion yn ystod

ymgyngoriadau a chyn rhagnodi meddyginiaeth. Rhaid i gleifion gyflwyno prawf adnabod â llun naill ai wrth fynychu'r clinig, yn ystod ymweliadau cartref neu drwy ei lanlwytho'n ddiogel ar wefan y clinig. Hefyd, disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y gwiriadau eraill a gaiff eu cwblhau yn ystod ymgyngoriadau, megis gofyn cwestiynau am hanes meddygol cleifion. Gwelsom gopi o'r polisi Gweithdrefn Dilysu Manylion Adnabod, a oedd yn cadarnhau'r broses sydd ar waith yn y clinig.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Gwelsom bolisïau rheoli heintiau, rhestrau glanhau a hylendid a mynediad at hyfforddiant.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn sicrhau ei fod ymwybodol o'r canllawiau lleol a chenedlaethol diweddaraf a gyhoeddir gan y llywodraeth a diweddariadau a gyhoeddir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar COVID-19.

Fel y nodwyd yn flaenorol, gwelsom gopi o bolisi Rheoli Heintiau diwygiedig a oedd yn disgrifio'r trefniadau ar gyfer atal a rheoli heintiau sydd ar waith yn y clinig. Dywedodd y rheolwr cofrestredig y caiff y polisi ei ddiweddaru bob blwyddyn. Cawsom hefyd gopi o restr wirio Rheoli Heintiau a gwblhawyd ym mis Rhagfyr 2020. Roedd y rhestr wirio yn gweithredu fel adnodd archwilio i fonitro'r risgiau posibl i gleifion a staff a gwelsom nad oedd unrhyw faterion wedi'u nodi. Roedd adran benodol ar gydymffurfiaeth â'r canllawiau diweddaraf ar COVID-19 wedi'i hychwanegu at y rhestr wirio, a gwnaethom nodi bod hyn yn arfer dda.

Dywedwyd wrthym fod hylif diheintio dwylo ar gael ym mhob rhan o'r clinig a bod posteri i atgoffa'r cleifion a'r staff am hylendid dwylo da wedi'u harddangos. Gwelsom gopi o bolisi Technegau Golchi Dwylo a oedd yn dangos i'r staff sut i lanhau eu dwylo'n ofalus er mwyn helpu i atal unrhyw haint rhag lledaenu.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y trefniadau glanhau addas a oedd ar waith yn y clinig a gwelsom fod y rhain wedi'u dogfennu mewn polisi Amserlenni Glanhau. Gwelsom fod y polisi yn nodi'r tasgau yr oedd angen eu cwblhau mewn ardaloedd penodol.

Dywedwyd wrthym fod cyfarpar diogelu personol priodol ar gael yn y clinig ac y caiff lefelau stoc eu gwirio bob chwarter er mwyn sicrhau cyflenwadau digonol. Y rheolwr cofrestredig yw'r unig glinigydd yn y clinig ac mae wedi'i gofrestru â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol. Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli

heintiau fel rhan o'i ofynion hyfforddiant proffesiynol gorfodol. Gwelsom dystiolaeth bod y derbynnydd wedi cwblhau hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o COVID-19 yn ddiweddar, a oedd yn cynnwys pynciau ar atal a rheoli heintiau.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas i gyflawni eu rolau a'u bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom edrych ar asesiadau risg diweddar a gofyn i'r lleoliad am y newidiadau a wnaed mewn ymateb i COVID-19 er mwyn cynnal arferion diogel.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Mae gan y clinig ddau aelod o staff. Eglurodd y rheolwr cofrestredig fod hyn yn golygu bod y trefniadau rheoli yn anffurfiol ar y cyfan; er enghraifft, yn hytrach na chynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd, ceir trafodaethau yn ystod cyswllt arferol o ddydd i ddydd. Mae hyn yn golygu bod modd trafod newidiadau mewn arferion gweithio, ac unrhyw ddiweddariadau ar COVID-19, yn gyflym ac yn effeithiol. Gwelsom fod y ddau aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau, megis diogelu, iechyd a diogelwch a thriniaeth cynnal bywyd sylfaenol.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod wedi trafod y risgiau sy'n gysylltiedig â gweithio yn ystod pandemig COVID-19 â'r derbynnydd, ac nad oedd unrhyw bryderon wedi'u nodi. Dywedwyd wrthym nad oedd y naill aelod o'r staff na'r llall wedi bod yn absennol yn ystod y pandemig, a bod hyn wedi sicrhau na fu effaith ar y gwasanaethau i gleifion.

Gwnaethom edrych ar y prosesau sydd ar waith i gynnal arferion gweithio diogel a sicrhau y rhoddir gofal i gleifion yn ddiogel. Gwelsom fod polisi Rheoli Meddyginiaethau ar waith a oedd yn nodi gweithdrefnau a threfniadau'r practis mewn perthynas â thrin meddyginiaethau, eu cadw'n ddiogel a'u gwaredu. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y caiff meddyginiaeth ei harchebu mewn sypiau bach er mwyn helpu i leihau'r risg na chaiff meddyginiaeth ei defnyddio cyn y dyddiad y daw i ben. Caiff gwiriadau dyddiol eu cwblhau hefyd er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn parhau'n gyfredol. Gwelsom fod protocolau cydsynio priodol ar waith er mwyn sicrhau bod cleifion yn deall y risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'u triniaeth colli pwysau cyn iddynt ymgymryd â'r rhaglen. Rhoddodd y rheolwr cofrestredig gopi o'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben i ni, a oedd yn cynnwys y wybodaeth hanfodol sy'n ofynnol gan y rheoliadau. [2]

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

[2] Dogfen sy'n ofynnol yn gyfreithiol yw datganiad o ddiben, sy'n cynnwys gwybodaeth safonol am wasanaeth darparwr.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.